

BC:T

Building
Communities Trust
Ymddiriedolaeth
Adeiladu Cymunedau

Cymunedau cydnerth: wynebu'r her o fod ar yr ymylon



Medi 2023

Asedau



Cydnerthedd



Cyflwyniad

Amdanom ni a'n gwaith

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (BCT) yn 2015 gyda'r bwriad o gefnogi datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau, er mwyn galluogi pobl i wneud eu cymdogaethau eu hunain yn llefydd cryfach a gwell i fyw ynddynt. Gyda chefnogaeth gwaddol o £16.5m gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, fe wnaethom sefydlu'r rhaglen Buddsoddi'n Lleol i ddarparu £1m dros 10-12 mlynedd ar gyfer 13 cymuned ledled Cymru, i drigolion fuddsoddi yn ôl eu blaenoriaethau eu hunain. Cafodd y cymunedau hyn eu nodi oherwydd eu safle ar Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) a'u mynediad cyfyngedig blaenorol at gyllid y loteri.

Mae ein profiad wedi dangos bod y rhan fwyaf o ardaloedd Buddsoddi'n Lleol yn dioddef o'r problemau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ac wedi dewis blaenoriaethu mynd i'r afael â heriau sy'n deillio o lefelau isel o asedau cymunedol, ymgysylltiad dinesig cyfyngedig a chysylltedd gwael. Fel y dengys manylion ein gwaith ymchwil, mae llawer o faterion yn gysylltiedig â pherfformoldeb economaidd-gymdeithasol yr ardaloedd hyn, er nad ydynt, i raddau helaeth, yn gymunedau mwyaf anghysbell Cymru. Mae gwaith ehangach yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau wedi golygu ein bod wedi datblygu rhwydweithiau ehangach gyda sefydliadau cymunedol ledled Cymru, ac i lawer ohonynt – yn enwedig y tu allan i ddinasoedd mwy – mae materion tebyg yn codi.

I'r rhan fwyaf o gymunedau, mae sicrhau eu bod yn datblygu neu'n cynnal asedau sydd o dan reolaeth leol ac yn ymateb i anghenion lleol yn brif flaenoriaeth. Mae manau cyhoeddus lle gall pobl gael gafael ar wasanaethau (o ofal plant, i gyngor, i gymorth cyflogaeth), cymryd rhan mewn gweithgareddau gymdeithasol a, phan fydd angen, cael cymorth brys drwy fentrau fel prosiectau bwyd neu ganolfannau cynnes, yn hanfodol i bron pob cymuned ac, o gael y dewis, mae trigolion mewn ardaloedd Buddsoddi'n Lleol wedi buddsoddi yn y cyfleusterau hyn ac yn y sefydliadau sy'n eu rhedeg.

Mewn llawer o achosion, dechreuodd y rhaglen Buddsoddi'n Lleol mewn manau heb unrhyw weithgarwch cymunedol a gwirfoddol sylweddol, ac yn aml iawn nid oedd llawer o unigolion hyderus a phrofiadol i arwain mentrau lleol.

Mae buddsoddi mewn ymdrechion i ehangu'r grŵp hwnnw o bobl wedi bod yn rhagofyniad hanfodol, ond yn aml yn un araf, i gefnogi gweithredu ehangach a datblygu mwy o grwpiau cymunedol i feithrin a gweithredu gweithgareddau ac asedau lleol hanfodol.

Yn yr un modd, mae cysylltedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn yn wael. Mae cysylltiadau trafndiaeth yn annigonol, mae isadeiledd band eang yn aml yn is na'r safonau a welir yn ein dinasoedd, ac mae cymryd rhan mewn marchnadoedd swyddi mawr fel arfer yn gofyn am gymudo sylweddol. Er bod modd gwneud llai ar lefel gymunedol i fynd i'r afael â'r heriau hyn (ar wahân i drafndiaeth), dylai lliniaru ar eu cyfer fod yn flaenoriaeth.

Ar ôl gweithio'n agos gyda'n 13 ardal Buddsoddi'n Lleol a sefydliadau cysylltiedig dros yr wyth mlynedd diwethaf, rydym yn cydnabod yn glir y rôl hollbwysig y mae asedau cymunedol yn ei chwarae o ran gwella bywydau pobl leol. I'r perwyl hwn, rydym wedi lansio'r Rhaglen Buddsoddi mewn Mudiadau Angori Cymunedol i ddarparu cyllid tymor canolig i sefydliadau allweddol ar draws tua 10 cymuned arall o ddechrau 2024. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sy'n ganolog i'w cymunedau, mewn ardaloedd sydd â lefelau isel o asedau cymunedol, er mwyn eu helpu i fod yn gryfach ac mewn sefyllfa well i wynebu heriau yn y dyfodol.

Gwybodaeth am ein gwaith ymchwil


Fe wnaethom ddechrau ein gwaith ymchwil yn ystod pandemig COVID-19, pan oedd yn ymddangos bod pwysigrwydd rôl asedau cymunedol lleol yn cael mwy o gydnabyddiaeth. Roeddem am weld a oedd y materion a nodwyd yn ein gwaith yn gyffredin ac a oedd canfyddiadau'r adroddiad *Left Behind*, dan arweiniad yr Local Trust sy'n gwneud gwaith tebyg i ni yn Lloegr, yn berthnasol i Gymru.¹

Gwnaethom gomisiynu Oxford Consultants for Social Inclusion (OCSI), ymgynghoriaeth ymchwil a data sy'n gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus a chymunedol i wella gwasanaethau a chyfuno arbenigedd mewn ymchwil a thechnoleg i gefnogi grwpiau sy'n gweithio er lles cymdeithasol, i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn y gorffennol, mae OCSI wedi helpu Llywodraeth y DU i ddatblygu a chynnal Indecs Amddifadedd Lluosog Lloegr (IMD) ac wedi cefnogi gwaith ymchwil yr Local Trust er mwyn sefydlu indecau tebyg ar gyfer Cymru.

Nodir canlyniadau gwaith OCSI yn yr adroddiad hwn. Er nad oeddem yn disgwyl gweld yr un canfyddiadau â Lloegr, o ystyried bod gwahaniaethau sylweddol mewn daearyddiaeth ffisegol a gwleidyddol o'i gymharu â Chymru, roedd rhai o'r allbynnau'n ein synnu'n fawr. Yn benodol, mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod y mwyafrif helaeth o gymunedau sy'n cael eu nodi fel cymunedau difreintiedig yng Nghymru hefyd yn rhai sydd â'r diffyg mwyaf o ran asedau cymunedol, gyda lefelau isel o ymgysylltu dinesig a chysylltedd gwael, ac maent ymhlith y rhai gwaethaf o ran effeithiau perifferoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Drwy ein gwaith ymchwil, rydym wedi datblygu dau indecs ar wahân ond ategol – Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI) ac Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI). Mae'r WCAI ac WCRI yn rhoi sgôr a safle i bob ardal fach yng Nghymru. Mae safle o 1 yn golygu bod gan ardal ddarpariaeth is o isadeiledd cymunedol (WCAI) ac ystyrir ei bod yn llai cydnerth (WCRI), tra bo safle o 410 yn golygu bod gan ardal fwy o isadeiledd cymunedol a'i bod yn cael ei hystyried yn fwy cydnerth. Drwy ein Indecau, rydym wedi gallu cynhyrchu data meintiol newydd sbon, a fanylir i lefel leol, ar gyfer y genedl gyfan.

¹ Local Trust, *Left Behind? Understanding Communities on the Edge*, 2019.



Rydym hefyd wedi defnyddio'r WIMD hirsefydlog ar y cyd â'n data WCAI newydd i roi trefn gynhwysfawr ar gydnerthedd cymunedol ledled Cymru, ac wrth wneud hynny, rydym wedi nodi 102 o Ardaloedd Llai Cydnerth ledled y wlad – ardaloedd sy'n wynebu heriau sylweddol o ran seilwaith cymunedol, yn ogystal ag amddifadedd. Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn cymharu'r ffigur cyfartalog ar gyfer Ardaloedd Llai Cydnerth â chyfartaledd Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer Ardaloedd Difreintiedig Eraill ar draws ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol.²

Mae Ardaloedd Llai Cydnerth (LRA) ardaloedd yn cael sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019. Ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102)

Mae 102 o ardaloedd 'llai cydnerth' ledled Cymru.

Mae 'ardaloedd difreintiedig eraill' yn ardaloedd sydd wedi'u rhestru yn yr 20% mwyaf difreintiedig ar Fynegeion Amddifadedd Cymru 2019, nad oeddent wedi'u nodi fel Ardaloedd Llai Cydnerth. Mae 27 o 'ardaloedd difreintiedig eraill' ledled Cymru.

² Gellir dod o hyd i restr lawn o Ardaloedd Llai Cydnerth ac Ardaloedd Difreintiedig Eraill yn yr atodiad ar y dudalen 26.

Gan gydnabod y cyfyngiadau o'r WCAI a WCRI meintiol, gwnaethom hefyd gomisiynu astudiaeth ansoddol gyfyngedig i werthuso'r canfyddiadau yn ôl profiadau byw mewn sampl fach o gymunedau ac i ddarparu data cyd-destunol ar gyfer beirniadu a gwella'r mesurau meintiol a ddefnyddir.

Cynhaliwyd astudiaethau achos ym Mhenrhiwceibr yn Rhondda Cynon Taf, de Glan-yr-Afon yng Nghaerdydd, Duffryn a Maesglas yng Nghasnewydd, ac Aberteifi ac Aberporth yng Ngheredigion. Mae hefyd yn bwysig gwneud pwynt am y derminoleg rydym wedi'i defnyddio yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn deall ac yn cydnabod bod y term 'llai cydnerth' yn gallu bod yn ddadleuol ac nid ydym yn ei ddefnyddio i awgrymu bod ardaloedd sy'n cael eu categorio fel rhai 'llai cydnerth' yn brin o bobl sydd â sgiliau neu ymrwymiad i gydnerthedd cyffredinol ardal. Fe'i defnyddir i ddynodi ardaloedd daearyddol sy'n profi'r anfantais ddeuol o lefelau uchel o amddifadedd a heriau isadeiledd cymunedol. Mae'r defnydd o'r label hwn yn adlewyrchu'r system raddio sy'n gynhenid mewn unrhyw indecs. Dyna pam, er gwaethaf ei anawsterau ac yn absenoldeb term gwell, y penderfynasom ei ddefnyddio.

Rydym yn gobeithio y bydd y canfyddiadau hyn yn annog persbectif newydd o ran meddwl am le yng Nghymru, gan gydnabod bod cael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd yn hanfodol i gyfleoedd bywyd pobl. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos yn glir bod byw mewn cymuned dlawd yng Nghymru (bron bob amser) yn golygu byw mewn cymuned sydd â lefelau isel o gydnerthedd. Ni ellir anwybyddu'r pwynt hollbwysig hwn wrth gynllunio polisiau yn y dyfodol sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac anfantais ar draws y genedl. Wrth i lymder barhau i frathu, rydym yn gobeithio y bydd ein gwaith ymchwil yn cefnogi llunwyr polisi a chyllidwyr – yn ogystal â phobl sy'n gweithio mewn cymunedau – i wneud penderfyniadau cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru.



Tabl cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Amdanom ni a'n gwaith.....	Error! Bookmark not defined.
Gwybodaeth am ein gwaith ymchwil.....	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb gweithredol	7
Rhestr o fyfoddau	8
Gwybodaeth am y data	9
Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI)	9
Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI)	10
Daeryddiaeth ystadegol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA)	11
Gyrrwr o angen	12
Lleoliad Ardaloedd Llai Cydnerth	14
Perthynas ag amddifadedd ac Ardaloedd Difreintiedig Eraill	15
Allanolynnau/Eithriadau i'r rheolau.....	16
Y berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac isadeiledd cymunedol	16
Cyfyngiadau'r indecsau	17
Mesur dwysedd.....	18
Mesur gwirfoddoli.....	18
Mae'r ddau indecs yn statig, yn seiliedig ar setiau data sefydlog.....	19
Dallineb cyd-destunol	19
Sut i ddefnyddio'r indecsau a'r canfyddiadau hyn.....	19
Prif ganfyddiadau	20
Y Boblogaeth	20
Tai	21
Yr Economi	22
Cyflogaeth a diweithdra	22
Iechyd.....	23
Addysg a sgiliau	24
Mynediad a gwasanaethau	24
Anghenion cymunedol ac isadeiledd cymdeithasol.....	25
Argymhellion: yr hyn sydd angen digwydd nesaf.....	25
Atodiadau.....	Error! Bookmark not defined.

Crynodeb gweithredol

Cafodd y gwaith ymchwil hwn gan Oxford Consultants for Social Inclusion a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau. Mae'n mapio ac yn graddio ardaloedd o Gymru o ran presenoldeb asedau dinesig, lefelau ymgysylltu o fewn cymunedau a'u cysylltedd o ran mynediad at swyddi, trafnidiaeth a seilwaith TG.

Drwy gynnal yr ymchwil, rydym wedi creu dau indecs newydd. Mae Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI) wedi rhestru pob un o'r 410 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) yng Nghymru o ran parthau cysylltedd, asedau cymunedol a chymunedau sy'n ymgysylltu, i ddangos y lefelau cyfunol o seilwaith cymunedol.

Mae Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI) yn uno'r Indecs asedau gyda Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) i ddangos i ba raddau mae cymunedau'n profi heriau o ran amddifadedd a diffyg seilwaith. Mae cydgyfeirio trawiadol rhwng yr WCAI a'r WIMD, i raddau mwy nag y byddid yn ei ddisgwyl mewn gwlad fel Cymru, lle mae cymaint o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig. I'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae hefyd yn golygu byw mewn ardaloedd lle mae seilwaith cymunedol allweddol yn brin.

Mae'r ymchwil hefyd yn nodi categori o Ardaloedd Llai Cydnerth (LRAau) yn cael eu cysyniadu fel MSOAs yng Nghymru, sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019. Ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102) yn cael eu nodi fel ardaloedd 'llai cydnerth' dim ond 27 o ardaloedd sydd yn yr 20% o'r rhai mwyaf difreintiedig ar yr WIMD, ond nad ydynt yn cael eu cyfrif fel LRA. Yn drawiadol, mae llawer o'r cymunedau LRA sy'n profi heriau seilwaith ac amddifadedd i'w cael ar gyrion canolfannau trefol mawr, ar stadau tai a godwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd ac mewn hen gymunedau glofaol.

Mae'r data'n awgrymu bod y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig, ar y cyfan, wedi gallu cadw eu hasedau dinesig, er nad ydynt ar y cyfan yn cael eu disgrifio fel bod yn gyfoethog a'u bod yn aml yn profi cysylltedd gwael iawn. Mae dadansoddiad mwy manwl o'r data'n awgrymu bod llawer o ardaloedd gwledig ledled Cymru'n profi lefelau uchel o gymunedau byw ac ymgysylltiol.

Mae ein hymchwil yn dangos bod cymunedau â llai o fannau cyfarfod, sy'n llai weithgar ac ymgysylltiol ac sydd â chysylltedd gwael â'r economi ehangach, yn profi canlyniadau cymdeithasol ac economaidd sy'n sylweddol wahanol o'u cymharu â chymunedau sydd â mwy o'r asedau hyn. Mae gan gymunedau sydd â llai o'r asedau hyn gyfraddau diweithdra uwch, yn aml nid oes gan y preswylwyr gymwysterau ac maent yn profi mwy o salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar eu bywydau nag ardaloedd sy'n cael eu cyfrif fel rhai sy'n profi amddifadedd sy'n meddu ar yr asedau hynny ac yng Nghymru'n gyffredinol. Mae ganddynt

hefyd lefelau is o weithgarwch cymunedol ac maent yn derbyn lefelau is o gyllid gan y wladwriaeth a chyllidwyr elusennol er gwaethaf eu heriau cymdeithasol. Ac, er gwaethaf y problemau â chysylltedd, nid yw bron i draean yr aelwydydd mewn LRA yn berchen ar gar, sy'n golygu bod y preswylwyr yn fwy tebygol o gael problemau wrth gael gwaith a manteisio ar wasanaethau cyhoeddus allweddol.

Nid yw rhai o'r canfyddiadau hyn yn syndod, mae perifferoldeb cymharol llawer o'r LRA bron yn sicr o fod wedi cyfrannu at allfudo o blith y bobl iau, fwy medrus; ond nid yw'r canfyddiadau'n ymwneud ag iechyd, gweithredu cymunedol a mynediad at gyllid mor amlwg. Mae'r mapio a graddio penodol hwn o seilwaith cymunedol, wedi'i gyfuno â WIMD, yn dangos yn glir yr anghydraddoldeb parhaus yn seiliedig ar le sy'n bodoli ar hyd y lled y genedl. Mae'r anghydraddoldebau hyn wedi arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd gwahanol iawn i bobl sy'n byw mewn LRA.

I leihau'r gwahaniaethau hyn sy'n seiliedig ar le, rydym yn argymhell:

- 01** Y dylai Llywodraeth Cymru ddsbarthu adnoddau'n seiliedig ar gydnherthedd yn ogystal ag amddifadedd, gan gydnabod yr heriau ychwanegol mae pobl agored i niwed sy'n byw ar gyrion trefi a dinasoedd Cymru'n eu hwynebu.
- 02** Bod angen i gynllunwyr trafndiaeth roi blaenoriaeth i LRA yn achos gwasanaethau cludiant cyhoeddus, gan gynnwys cyllido cludiant cymunedol lle bo angen.
- 03** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau gorfodol i sicrhau bod pob datblygiad tai yn y dyfodol yn cael eu "diogelu at y dyfodol" gyda mynediad da at drafndiaeth a darpariaeth sylfaenol o ran asedau cymunedol, fel canolfannau cymunedol.
- 04** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, drwy ganllawiau cryfach neu ddeddfwriaeth, bod gan gymunedau broses symlach i gael meddiant o gyfleusterau cymunedol allweddol.
- 05** I adeiladu cydnherthedd cymunedol ledled Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru greu 'Cronfa Cyfoeth Cymunedol' gan ddefnyddio'r don newydd o arian a gaiff ei ryddhau o dan Ddeddf Asedau Segur 2022.
- 06** Bod yn rhaid i gyllidwyr gydnabod anghenion Ardaloedd Llai Cydnerth a sicrhau eu bod yn cael eu cyfran deg o adnoddau.

Rhestr o yrfodau

BCT – Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

IMD – Indecs Amddifadedd Lluosog

LRA – Ardal / Ardaloedd Llai Cydnerth

LSOA – Ardal / Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is

MSOA – Ardal / Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol

OCSI – Oxford Consultants for Social Inclusion

ODA – Ardal Ddifreintiedig Arall / Ardaloedd Difreintiedig Eraill

WCAI – Indecs Asedau Cymunedol Cymru

WCRI – Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru


WIMD – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Gwybodaeth am y data

Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI)

Datblygwyd WCAI i gymharu i ba raddau mae ardaloedd daearyddol penodol yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag isadeiledd cymunedol gwael, arwahanrwydd cymharol a lefelau isel o gyfranogiad. Mae'n cyfuno cyfres o ddangosyddion o dan dri parth: **asedau dinesig, cysylltioldeb a chymuned weithgar ac ymgysylltiol**.

Adeiladwyd WCAI gan ddefnyddio'r un fethodoleg, strwythur parth ac uned ddaearyddol o ddadansoddi ag a fabwysiadwyd yn niweddariad 2021 Indecs Anghenion Cymunedol Lloegr³; ac mae'n defnyddio'r un dangosyddion cydrannol lle bo hynny'n bosibl.




³ Local Trust, *Left Behind? Understanding Communities on the Edge*, 2019.

Cysylltioldeb



Cymuned weithgar ac ymgysylltiol



Nid yw'r gwaith o gasglu ac archwilio'r mesurau hyn erioed wedi cael ei wneud o'r blaen yng Nghymru, sy'n golygu bod ein gwaith ymchwil newydd wedi cynhyrchu map fforensig o isadeiledd cymunedol ledled y wlad. Drwy ddylunio, man cychwyn WCAI oedd mesur cryfderau a'r hyn sy'n bresennol mewn ardal ddaearyddol fach, yn hytrach na mesur yr hyn sy'n absennol. Mae'r tri parth yn cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig ag asedau dynol a chymdeithasol, adeiledig ac amgylcheddol, ac economaidd, er mwyn darparu asesiad manwl ac eang o isadeiledd cymunedol a lefelau cyfranogiad mewn ardal.

Rydym yn cydnabod bod tebygrwydd rhwng rhai o'r dangosyddion a ddefnyddir yma ac yn WIMD. Fodd bynnag, nid yw'r mynediad at wasanaethau na'r meysydd amgylchedd ffisegol yn WIMD yn mesur isadeiledd yn ddigonol ar ffurf asedau sy'n eiddo i'r gymuned. Nid yw'r rhain, nac unrhyw un o'r meysydd WIMD eraill, ychwaith yn ystyried asedau llai diriaethol fel cyfraddau cyfranogiad mewn cymunedau.

Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI)

Ar ôl creu'r WCAI, roeddem yn awyddus i archwilio ei gysylltiadau ag amddifadedd a dewis ei gyfuno â'r WIMD hirsefydlog i ddatblygu'r WCRI. Yn yr un modd â'r WCAI, mae'r WCRI yn rhoi sgôr a safle i bob ardal fach yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r WCRI yn ystyried heriau isadeiledd cymunedol a lefelau amddifadedd, er mwyn darparu mesur o gydnerthedd.

Rydym yn diffinio cymunedau cydnerth fel:

Cymunedau sy'n meddu ar, neu sydd â mynediad at, amrywiaeth o asedau diriaethol ac anniriaethol sy'n cael eu defnyddio gan bobl yn y gymuned i wella llesiant unigol a chymunedol.

Gall pobl gyrchu'r asedau hyn i sicrhau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol mewn sefyllfaoedd andwyol – boed yn sydyn, yn annisgwyl neu'n hirdymor ac yn gronig eu natur.

Daearyddiaeth ystadegol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA)

Mae'r ddau indecs newydd yn defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol fel yr uned fesur daearyddol; nid ydynt yr un fath â wardiau neu blwyfi. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cael eu defnyddio'n eang i adrodd ar ystadegau ardaloedd bach, sy'n cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd, gyda phoblogaeth breswyl fel arfer rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.⁴

Roedd y penderfyniad i ddefnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn ganlyniad, i raddau helaeth, i'r data a oedd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yw'r uned fesur sy'n cael ei ffafrio oherwydd:

- Dim ond ar ôl pob cyfrifiad y byddant yn newid, sy'n golygu bod mwy o gysondeb dros amser – hyd yn oed gyda newidiadau sydd wedi'u gwneud oherwydd y cyfrifiad, bydd tua 95% yn aros yr un fath ac felly'n cynrychioli daearyddiaeth fwy sefydlog na wardiau
- Yn gyffredinol, maent i gyd yr un maint (llai na 5,000 o bobl) ond maent yn ddigon mawr fel eu bod yn debyg i faint cyfartalog y wardiau
- Maent yn llai cysylltiedig yn wleidyddol na wardiau, a oedd yn bryder a godwyd gan rai rhanddeiliaid wrth ddylunio Indecs Anghenion Cymunedol Lloegr – sef y gellir cyffindwylo ffiniau wardiau ond nad yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn gysylltiedig yn wleidyddol
- Mae gan Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol enwau erbyn hyn (nid codau yn unig) felly maent yn haws eu hadnabod ac maent hefyd yn cael eu defnyddio fwyfwy i ddsbarthu datganiadau ystadegau, fel llwyth achosion COVID-19⁵
- Mae'r rhestr o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol 'llai cydnerth' yn dal yn gallu cael ei chysylltu â wardiau ac awdurdodau lleol.

⁴<https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/censusgeographies/census2021geographies>
[cyrchwyd 25/7/23]

⁵ <https://coronavirus.data.gov.uk/>

Er mai dyma'r mesur o ddewis, rydym hefyd yn cydnabod y gallai unigolion fod yn fwy cyfarwydd ag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n cael eu defnyddio yn y WIMD. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, 4 neu 5 fel arfer. Rydym hefyd yn ymwybodol efallai na fydd defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol i gynrychioli cymunedau daearyddol bach yn cyfateb i brofiadau, dealltwriaeth a chanfyddiad pobl.

Mae'r defnydd a'r diffiniad o'r term 'cymuned' hefyd yn ddiamau yn cael ei herio mewn sawl ffordd, gan gynnwys wrth geisio alinio'r cysyniad â mesur daearyddol gwrthrychol.

Datguddiodd ein gwaith ymchwil ansoddol deimladau cymysg am werth yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol i ganfyddiad pobl leol o'u cymuned. Efallai na fydd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol bob amser yn cynrychioli cymunedau cydlynol yn gywir, gan eu bod yn gallu cynnwys nifer o ardaloedd sydd â nodweddion ac asedau amrywiol. Mae barn yn amrywio o ran a yw'r mesur yn rhy fawr, yn rhy fach neu'n dderbyniol.

Er bod rhywfaint o amwysedd yn parhau ynghylch defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol fel uned ddelfrydol o fesur yn seiliedig ar le ac, er gwaethaf yr heriau a gyflwynir gan amrywiadau o fewn ffin Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, ystyrir yn gyffredinol bod yr uned yn fesur priodol ar gyfer y dangosyddion a ddefnyddir, oherwydd ei maint cymharol unffurf ac argaeledd ffynonellau data.

Gyrrwr o angen

Mae'n bosibl nodi 'gyrrwr o angen' ar gyfer pob ardal fach sydd wedi'i rhestru yn y indecsau. Mae hwn yn disgrifio'r parth yn y indecs y sgoriodd pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol waethaf yn ei erbyn, gan dynnu sylw at flaenoriaeth bosibl ar gyfer ymyrryd a chefnogi.

Wrth ystyried pob un o'r 410 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ledled Cymru, **cysylltioldeb** yw'r gyrrwr o angen sy'n ymddangos amlaf, gyda 37.32% o'r holl ardaloedd yn sgorio'n wael iawn yn y parth hwn. Mae hyn yn hynod o debyg wrth gymharu 'Ardaloedd Llai Cydnerth', gyda 37.25% o'r Ardaloedd Llai Cydnerth yn sgorio'n wael iawn yn y parth **cysylltioldeb**.


Fodd bynnag, nid yw'r patrwm yn wir wrth ystyried Ardaloedd Difreintiedig Eraill yn unig. Mewn gwahaniaeth amlwg, y gyrrwr o angen ar gyfer y rhan fwyaf o Ardaloedd Difreintiedig Eraill yw'r parth **cymuned weithgar ac ymgysylltiol**, gyda 48.15% ohonynt yn sgorio'n wael iawn yn y parth hwn.

Graff Cymharu Gyrrwr o Angenion

Canfyddiadau

Mae'r graff hwn yn dangos bod y parth *cysylltioldeb* yn cael ei nodi amlaf fel y gyrrwr o angen ar draws yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, gyda'r unig eithriad o fewn 'Ardaloedd Difreintiedig Eraill' lle nodir y parth 'Gweithgar ac Ymgysylltiol' fel y gyrrwr o angen.

Mae hefyd yn dangos bod *asedau dinesig* yn yrrwr o angen yn llai aml ar draws pob un o'r grwpiau cymharol, gyda ffigur trawiadol o isel o fewn 'Ardaloedd Difreintiedig Eraill'.



Yn drawiadol, fel y gwelir uchod, y parth **asedau dinesig** yw lle mae Ardaloedd Llai Cydnerth, Ardaloedd Difreintiedig Eraill a phob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn y indecs, gyda'i gilydd, yn sgorio waethaf. Mae hyn yn tanlinellu'r rôl hanfodol y mae'r asedau hyn yn ei chwarae o ran meithrin cydnerthedd cymunedol. Fel y gwelir yn ein gwaith ein hunain, mae trigolion lleol yn aml yn rhoi blaenoriaeth i gynnal asedau cymunedol, tra bod gwasanaethau a chyfleusterau eraill yn lleihau o ran cwrpas neu'n cau.⁶

Mewn llawer o leoedd, mae colli amwynderau yn golygu bod gwarchod neu ddatblygu asedau cymunedol lleol yn bwysig iawn gan fod eu presenoldeb yn gwneud iawn am gael gwared ar wasanaethau eraill neu fynediad gwael at y rheini sydd wedi'u lleoli'n fwy canolog. Mae ein profiad hefyd yn atgyfnerthu'r croesodiad ymddangosiadol o lefelau uwch o asedau cymunedol gyda lefelau isel o wirfoddoli, a fesurir yn y parth **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol**, gan fod asedau critigol yn aml yn cael eu rhedeg gan grwpiau cymharol fach o bobl.

Mae'r gymhariaeth gyrrwr o angen hefyd yn dangos bod y parth **asedau dinesig** yn llai o broblem mewn Ardaloedd Llai Cydnerth nag yng Nghymru yn gyffredinol. Yn drawiadol, nid yw'n her o gwbl mewn Ardaloedd Difreintiedig Eraill, lle mai'r parth **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol** yw'r gyrrwr o angen mewn bron i 50% o achosion.

⁶ BCT, [Mapping Community Assets in Wales](#), 2020.

Yr hyn y mae hyn hefyd yn ei ddangos yw y dylai polisiâu a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i gryfhau cydnerthedd cymunedol ymgorffori cryfderau ac asedau unigryw'r gymuned ei hun, yn hytrach na cheisio darparu dull gweithredu cyffredinol, waeth beth yw'r amgylchiadau penodol.


Ceir trosolwg daearyddol o'r gyrrwr o angen isod. Mae'r map yn dangos mai **cysylltioldeb** yw'r parth gyda'r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n sgorio waethaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at grynodiadau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n sgorio'n wael iawn yn y parth **asedau dinesig** (yn Ynys Môn a gogledd-ddwyrain Powys), yn ogystal ag yn y parth **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol** (yng ngogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru).

Yn ddiddorol, mae dwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (gogledd Johnstown a Rhostyllen yn Wrecsam, a gogledd Llanrhymni yng Nghaerdydd) sydd â gyrrwr o angen ar y cyd sy'n ymgorffori'r parthau **asedau dinesig** a **chymunedau gweithgar ac ymgysylltiol**.

Map gyrrwr o angen

Mae'r map hwn yn dangos y 'gyrrwr o angen' ar gyfer pob MSOA. Y gyrrwr o angen yw'r parth yn y indecs y mae'r MSOA wedi sgorio waethaf yn ei erbyn.

■ Cymuned weithgar ac ymgysylltiol ■ Asedau Dinesig ■ Cysylltioldeb ■ Asedau Dinesig a Cymuned weithgar ac ymgysylltiol



Mae'r map yn dangos mai Cysylltioldeb yw'r parth gyda'r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n sgorio waethaf. Ceir hefyd grynodiadau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n sgorio'n wael iawn yn y parth Asedau Dinesig (yn Ynys Môn a gogledd-ddwyrain Powys), yn ogystal ag yn y parth Cymunedau Gweithgar ac Ymgysylltiol (yng ngogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru).


Map data: © Crown copyright and database right 2021 • Created with Datawrapper

Lleoliad Ardaloedd Llai Cydnerth

Mae'r ymchwiliad hefyd yn nodi categori o Ardaloedd Llai Cydnerth (LRAau) yn cael eu cysyniadu fel MSOAs yng Nghymru, sydd â lefelau uchel o angen ar yr WCAI ac ar y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019. Ardaloedd hynny yn y 25% uchaf yng Nghymru (safleoedd 1-102) yn cael eu nodi fel ardaloedd 'llai cydnerth'.

Mae'r Ardaloedd Llai Cydnerth yn cael eu categorio fel ardaloedd sy'n wynebu'r anfantais ddeuol o:

- Lefelau uchel o amddifadedd; a
Heriau isadeiledd cymunedol – sef ardaloedd gyda llai o asedau cymunedol a dinesig sy'n profi ynysu cymharol a lefelau isel o gyfranogiad.



Perthynas ag amddifadedd ac Ardaloedd Difreintiedig Eraill

Mae perthynas gref rhwng amddifadedd a chydnerthedd cymunedol, gyda 10% o'r ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd (o'r WIMD) â'r sgôr WCAI uchaf ar gyfartaledd

(96.9). Mae'r berthynas hon yn gyffredinol gyson ar draws y grwpiau deigradd, hynny yw, po uchaf yw lefel yr amddifadedd, y lleiaf yw lefel y cydnerthedd cymunedol cyffredinol.

Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar gymharu'r ffigur cyfartalog ar gyfer Ardaloedd Llai Cydnerth â chyfartaledd Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer Ardaloedd Difreintiedig Eraill ar draws ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol. Y grŵp a gategoreiddiwyd fel 'Ardaloedd Difreintiedig Eraill' yw'r rhai a restrwyd yn yr 20% mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, na chawsant eu nodi fel Ardaloedd Llai Cydnerth. Mae 27 o 'ardaloedd difreintiedig eraill' ledled Cymru, gyda'r mwyafrif ohonynt yn drefol eu natur.

Allanolynnau/Eithriadau i'r rheolau

Fodd bynnag, mae yna rai eithriadau nodedig i'r tueddiad hwn. Yn ogystal, mae 7 ardal (1.7%) ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig ar yr WIMD sy'n cael eu rhestru ymysg yr 20% uchaf o ran isadeiledd cymunedol:

- Caerdydd - Sblot
- Caerdydd - Plasnewydd
- Caerdydd - De Grangetown
- Casnewydd - Stow Hill
- Caerdydd - Gogledd Grangetown
- Caerdydd - Adamsdown
- Caerdydd - De Glan-yr-Afon

Fodd bynnag, mae 5 o'r 7 ardal yn sgorio'n gwael yn y parth **cysylltioldeb**.

Mewn gwrthgyferbyniad, mae 5 ardal (1.2%) ymysg yr 20% lleiaf difreintiedig ar yr WIMD sy'n cael eu rhestru ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig o ran **isadeiledd cymunedol**:

- Rhondda Cynon Taf - Gorllewin Pentre'r Eglwys
- Caerdydd - Pontprennau
- Bro Morgannwg - Llanilltud Fawr
- Bro Morgannwg - y Rhws a'r Maes Awyr
- Sir Gaerfyrddin - Swiss Valley a Llangennech

Mae 4 o'r 5 ardal yn sgorio'n wael iawn yn y parth **asedau dinesig**.

Y berthynas rhwng cydnerthedd cymunedol ac isadeiledd cymunedol

Mae'r mapiau ar dudalen 17 yn cymharu pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn ôl eu safle yn WCAI a'u safle yn WCRI. Mae safleoedd y ddau indecs wedi cael eu rhannu'n chwarteri ac wedi cael cod rhwng 1 a 4.



Mae 1 wedi cael ei ddyrannu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn y 25% uchaf (graddau 1-102) o'r indecsau (sy'n golygu'r lleiaf cydnerth neu wedi'u graddio'n wael ar WCAI), gyda 4 wedi'u dyrannu i'r 25% isaf (graddau 309-410) o'r indecsau (sy'n golygu'r mwyaf cydnerth neu'n sgorio'n dda ar WCAI).

Mae'r map seilwaith cymunedol yn seiliedig ar y safle WCAI ac mae'n ymgorffori mesurau o'r tri pharth, tra bod y map cydnerthedd yn seiliedig ar y safle yn WCRI ac yn ymgorffori isadeiledd cymunedol, yn ogystal ag amddifadedd.

Yn y map seilwaith cymunedol, po dywyllaf y gwyrdd, po uchaf yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ar yr WCAI – sy'n golygu darpariaeth seilwaith gymunedol wannach; y mwyaf golau yw'r gwyrdd, yr isaf yw'r safleoedd MSOA – sy'n golygu gwell darpariaeth isadeiledd cymunedol. Yn yr un modd, ar y map cydnerthedd, po dywyllaf y gwyrdd, y lleiaf cydnerth yw'r ardal, a'r mwyaf golau yw'r gwyrdd, y mwyaf cydnerth yw'r ardal.

Map Isadeiledd Cymunedol


Mae'r map hwn yn dangos pa Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sydd yn y safle uchaf ar Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI). Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol wedi cael eu rhannu'n chwarteri ar sail eu safle ar Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI). Mae Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n brin o isadeiledd cymunedol yn cael ei nodi gan raddliw tywyll a safle uwch ar yr WCAI. Mae graddliwio goleuach yn dangos bod isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu'n helaeth.



Map data: © Crown copyright and database right 2021 • Created with Datawrapper

Map Cydnerthedd Cymunedol

Mae'r map hwn yn dangos pa mor gydnerth yw pob MSOA. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol wedi cael eu rhannu'n chwarteri ar sail eu safle ar Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCRI). Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n llai cydnerth yn gymunedol yn cael eu nodi gan raddliw tywyll a safle uwch ar yr WCRI. Mae graddliwio goleuach yn dangos mwy o wtnwch cymunedol.



Map data: © Crown copyright and database right 2021 • Created with Datawrapper

Mae'r mapiau hyn yn dangos y tebygrwydd rhwng Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol sy'n sgorio'n uchel ar y ddau indecs, gan ddangos yn glir bod ardaloedd fel Blaenau Ffestiniog, Aberteifi ac Aberporth, Cefn Mawr, Rhosllannerchrugog a de Johnstown, a Mynwy a Wyesham, ymysg eraill, i gyd yn rhestru isel am gydnerthedd cymunedol, yn ogystal â darpariaeth isadeiledd cymunedol.

Os nad oes gan MSOA isadeiledd cymunedol (fel y dangosir gan safle uwch ar WCAI a'r graddliwio tywyllach ar y map ar y chwith), mae'n debygol o brofi heriau mewn perthynas â chydnerthedd cymunedol. Fodd bynnag, nid yw hwn yn duedd gyffredinol, gyda nifer o eithriadau clir, gan gynnwys de'r Drenewydd, de'r Fenni a Crucornau, a gorllewin Dinbych, sydd i gyd yn profi llai o gydnerthedd cymunedol, o gymharu â'u safleoedd WCAI.

Yn fwy annisgwyl efallai, yw'r canfyddiad bod cyfran fawr o rannau mwy gwledig Powys a Cheredigion o fewn chwarter isaf WCAI, ac felly sydd â lefel uwch o isadeiledd cymunedol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod ardaloedd prin eu poblogaeth yn effeithio ar ôl

troed y MSOA, yn ogystal â'r ddibyniaeth ar fesurau dwysedd sy'n rhan annatod o ddyluniad yr indecs. Er enghraifft, yn Llanidloes, Blaen Hafren a Llandinam mae nifer o **asedau dinesig**, ac mae pob un hefyd yn sgorio'n uchel yn y parth **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol**.

Cyfyngiadau'r indecsau

Fel gydag unrhyw indecs, mae cyfyngiadau ac rydym eisoes wedi amlinellu'r heriau posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol fel yr uned fesur daearyddol ar dudalen 11 y ddogfen hon. Mae'r adran isod yn ymhelaethu'n gyntaf ar y cyfyngiadau sy'n benodol i'r Indecs Asedau Cymunedol Cymru ac Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru, yn ogystal â chyfyngiadau mwy cyffredinol sy'n debygol o fod yn berthnasol i unrhyw indecs meintiol. Cyflwynir y cyfyngiadau am resymau tryloywder ond, yn ein barn ni, nid ydynt yn tanseilio defnyddioldeb a 'gwerth ychwanegol' y ddau indecs.

Mesur dwysedd

Mae WCAI ac WCRI yn dibynnu ar fesurau dwysedd. Er bod cael data cynhwysfawr am bresenoldeb a dwysedd asedau dinesig yn fuddiol ac yn llenwi bwch sylweddol yn y dystiolaeth, nid yw'r mynegeion yn darparu gwybodaeth am sut mae'r asedau hyn yn cael eu defnyddio, pa mor aml y cânt eu defnyddio, a chan bwy.⁷

Mae ffocws ar ddwysedd asedau dinesig yn galluogi ardal sydd â nifer o asedau dinesig a chymunedol i sgorio'n uwch nag ardal sydd ag un ased cymunedol yn unig; nid yw hefyd yn ystyried cyfraddau defnyddio nac amrywiaeth y cyfleoedd sy'n deillio o fodolaeth yr ased dinesig.

O ganlyniad, mewn rhai cymunedau, er bod y indecsau yn dangos dwysedd uchel o asedau ar bapur, gall lleoedd barhau i gael eu tanddefnyddio oherwydd ffactorau nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigonol gan y dangosyddion. Enghraifft wych o'r mater hwn yw'r defnydd o fannau gwyrdd yn ne Glan-yr-Afon yng Nghaerdydd. Er bod nifer o fannau gwyrdd cyfagos, mae defnydd aelodau'r gymuned o'r mannau hyn yn gyfyngedig oherwydd problemau parhaus gyda sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhwystrau seicolegol.⁸

Yn yr un modd, mae rhai dangosyddion yn canolbwyntio ar nifer y gweithgareddau lleol yn unig, megis drwy gyfrif sefydliadau trydydd sector, heb ystyried maint, lefel nac ansawdd y sefydliadau hyn. Mae hyn i'w weld ym Mhenrhiwceibr yn Rhondda Cynon Taf, lle mae llawer o fentrau ar gyfer preswylwyr yn cael eu rhedeg drwy Lee Gardens Pool Group, yn ogystal ag ar y cyd â'r eglwys leol. Nid yw'r ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y ddau sefydliad hyn yn cael eu cofnodi'n ddigonol gan y dangosyddion **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol** presennol.⁹

⁷Bu her barhaus wrth fapio asedau cymunedol ledled Cymru, gweler [Mapping Community Assets in Wales a Community Assets](#).

⁸ Miller Research, adroddiad ymchwil mewnol, 2023.

⁹ Miller Research, internal research report, 2023.

Mesur gwirfoddoli

Mae mesur nifer y gwirfoddolwyr yn gywir a'r effaith y mae gweithgarwch gwirfoddol yn ei chael ar gydnerthedd cymunedol ehangach yn hynod o heriol.¹⁰ Nid yw llawer o bobl a fyddai'n cael eu hystyried yn wirfoddolwyr gweithredol gan ffynonellau data yn y parth **cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol** yn ystyried eu hunain felly. Mae'r WCAI a'r WCRI yn defnyddio canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru i gasglu gwybodaeth o arolygon hunan-gofnodedig am bobl sy'n gwirfoddoli.

Fodd bynnag, mae'r arolwg hwn yn rhoi darlun cyfyngedig yn unig o wirfoddoli cymunedol ac efallai na fydd yn cynrychioli gwir raddfa a dwyster gwirfoddoli yn gywir. Mae hon yn her benodol mewn perthynas â gwirfoddoli 'anffurfiol', gweithgareddau fel siopa i gymydog neu gasglu presgripsiwn ar gyfer unigolyn arall, sy'n aml yn digwydd mewn lleoliadau cymunedol ac sydd eto'n mynd heb eu cofnodi fel arfer.

Mae'r ddau indecs yn statig, yn seiliedig ar setiau data sefydlog

Mae WCAI ac WCRI yn fynegeion statig a ddatblygwyd o ffynonellau data sefydlog. Maen nhw'n mesur, yn sgorio ac yn rhestru ardaloedd daearyddol bach ar adeg benodol, gan ddarparu ciplun yn hytrach na darlun symudol. Wrth gwrs, mae'n bosibl adolygu'r mynegeion gyda ffynonellau data wedi'u diweddarau, os bydd adnoddau'n caniatáu hynny.¹¹ Mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i ddatblygu WCAI ac WCRI yn rhagflaenu pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw parhaus. O ganlyniad, efallai na fydd y mynegeion yn darparu darlun cywir am y newidiadau cymdeithasol sylweddol sydd wedi digwydd o fewn y cyfnod amser hwn.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r indecsau yn ymgorffori data diweddaraf cyfrifiad 2021, gan nad oedd data'r cyfrifiad ar gael yn y parth cyhoeddus adeg eu datblygu.

Dallineb cyd-destunol

Fel y nodwyd uchod, mae'r indecsau yn rhestru ardaloedd daearyddol bach yn ôl presenoldeb asedau (ac, yn achos WCRI, mesurau amddifadedd). Nid oedd y indecsau wedi'u dylunio i archwilio ffactorau cyd-destunol fel grwpiau demograffig penodol, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig, problemau o ran cyrchu'r asedau neu rwystrau ychwanegol y gallai grwpiau demograffig penodol eu hwynebu. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad i gyd-fynd â'r mynegeion yn ystyried cyfansoddiad demograffig Ardaloedd Llai Cydnerth yn ôl sawl nodwedd warchoddedig (rhyw, ethnigrwydd ac anabledd). Dyluniwyd ein gwaith ymchwil ansoddol hefyd i sicrhau ei fod yn archwilio ffactorau cyd-destunol fel y rhain yn fanylach.

¹⁰ Cefnogi Trydydd Sector Cymru, [The Economic Value of Volunteers](#).

¹¹ Mae Mynegai Anghenion Cymunedol Lloegr wrthi'n cael ei ddiwygio am y trydydd tro ar hyn o bryd, gyda dangosyddion ychwanegol yn cael eu hychwanegu.

Sut i ddefnyddio'r indecsau a'r canfyddiadau hyn

Beth bynnag fo'r cyfyngiadau a amlinellwyd yn flaenorol, mae'r indecsau yn parhau i fod yn ychwanegiad gwerthfawr at sylfaen dystiolaeth asedau cymunedol a chydnerthedd yng Nghymru.

Mae Indecs Asedau Cymunedol Cymru yn mapio a sgorio isadeiledd cymunedol na welwyd ei debyg o'r blaen, gan gynnwys neuaddau pentref, elusennau lleol, a thrafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Mae Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru yn cyfuno'r WIMD â'r data WCAI newydd i roi trefn gynhwysfawr ar gydnerthedd cymunedol ledled Cymru, ac wrth wneud hynny mae wedi datgelu'r 102 o Ardaloedd Llai Cydnerth a oedd yn anhysbys hyd yma.

Mae'r ddau yn seiliedig ar fesurau meintiol, gwrthrychol. Mae WCAI ac WCRI, ac adnoddau cysylltiedig, yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n gweithio yn y gymuned ac yn y sector cyhoeddus, i gyllidwyr, llunwyr polisi a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

